Aelod Annibynnol Cyfetholedig
Aelod Annibynnol Cyfetholedig

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r manau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r manau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â hyn, cysylltwch â chynrychiolydd y Cyfarwyddwr Strategol – Democratiaeth a'r Amgylchedd yn y cyfarfod.

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 21 Medi 2015, am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

YN BRESENNOL: Pat Astbury (Is-Gadeirydd yn y Gadair)

Y Cynghorwyr: Brian Blakeley, Philip C. Evans Y.H., Julie Fallon, David Griffiths, William T Hughes, Dilwyn Morgan a Gethin Williams

Aelodau Tim Rhodes

Annibynnol

Cyfetholedig:

Swyddogion:

Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol - Democrataidd a'r Amgylchedd), Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Gwenllian Williams (Cyfieithydd)

Hefyd yn bresennol:

Stephen Hughes (Prif Weithredwr Dros Dro, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Nicole Parry-Green (Swyddog Prosiect, Heddlu Gogledd Cymru), Winston Roddick CB QC (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) a Julian Sandham (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu).

182. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Amanda Bragg, Glenys Diskin a Richard Jarvis (Cyfreithiwr).

183. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

184. **MATERION BRYD**

Dim.

185. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2015 i'w cymeradwyo.

Mewn perthynas â Chofnod 170 - Ymddiheuriadau am absenoldeb, cadarnhaodd y Cynghorydd David Griffiths ei fod wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd William T. Hughes hefyd am beidio â bod yn bresennol yn y ddau gyfarfod diwethaf, o ganlyniad i salwch.

PENDERFYNWYD-

Bod cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 15 Mehefin 2015 yn cael eu cymeradwyo, yn amodol ar gynnwys ymddiheuriadau'r Cynghorydd David Griffiths.

186. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Rhoddodd yr Is-Gadeirydd (Pat Astbury) wybod i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru bod y Cynghorydd Bob Dutton wedi ymddiswyddo o'r Panel, gan ei fod wedi ei benodi i'r Cabinet yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Gofynnwyd bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at y Cynghorydd Dutton am ei holl waith caled, tra roedd yn aelod o Banel yr Heddlu a Throsedd.

Rhoddodd yr Is-Gadeirydd wybod hefyd ei bod yn ddiweddar wedi mynychu cyfarfod aelodau annibynnol cyfetholedig y Panel Heddlu a Throsedd ym Manceinion; byddai adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel Heddlu a Throsedd.

187. **DIWEDDARIAD CYFNODOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei adroddiad diweddarau am y cyfnod 1 Mai tan Awst 2015.

Roedd yr adroddiad yn trafod swyddogaeth ehangach Panel yr Heddlu a Throsedd yn bennaf, i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gan y Panel Heddlu a Throsedd, ac roedd yn cynnwys:

- Craffu ar Heddlu Gogledd Cymru - manylion ynghylch perfformiad yr Heddlu yn erbyn mesurau'r Panel Heddlu a Throsedd 2015/16.
- Roedd Diweddariadau Cyffredinol yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas ag: Ymgysylltu a Chyfathrebu; Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd; Comisiynu; Cyllideb Gyfranogol; Gwobrau; Cyllideb; Cyd-bwyllgor Archwilio; Diweddariad Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi; Cydweithio; Gwrandawiaadau Camymddwyn (Cadeiryddion â Chymwysterau Cyfreithiol); Ymweliadau â'r Ddalfa; Plant yr effeithir arnynt gan rieni yn y carchar; a Gohebiaeth.

Adroddodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei fod wedi'i enwebu yn gadeirydd annibynnol cyntaf Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd; roedd disgwyl ffurfioli'r penodiad hwn yn Hydref 2015.

Rhoddodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd sicrwydd na fyddai'r penodiad hwn yn effeithio ar ei effeithiolrwydd fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd; plismona Gogledd Cymru oedd ei flaenoriaeth gyntaf a phennaf.

Ystyriodd y Panel Heddlu a Throsedd yr adroddiad a thrafodwyd y meysydd canlynol:

- Cyfiawnder mewn Diwrnod - gweithdy addysgol ar gyfer pobl ifanc wedi'i anelu at geisio atal pobl ifanc rhag cyflawni troseddau ac i godi ymwybyddiaeth am y system cyfiawnder troseddol ac effeithiau trosedd.
 - Dywedodd y Cynghorydd Julie Fallon fod Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned wedi rhoi cyflwyniad yn ddiweddar i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn perthynas â'r fenter hon. Roedd y gweithdy yn fenter bwysig y dylai pob Ysgol fod yn ymwybodol ohoni ac y dylai cyllid ar gyfer hwn barhau yn y dyfodol.
- Plant yr effeithir arnynt gan rieni yn y carchar
 - Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cyflwyno papur i Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru ynglŷn â phryderon nad yw plant yr effeithir arnynt gan rieni yn y carchar yn cael eu nodi fel mater o drefn yng Ngogledd Cymru, ac felly nid oedd eu hanghenion yn cael sylw gan wasanaethau presennol. Roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo'r adroddiad ac wedi gofyn bod Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Gogledd Cymru yn symud materion yn eu blaen.
- Gwrandawiadau Camymddwyn - Cadeiryddion â chymwysterau cyfreithiol
 - Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, roedd newidiadau wedi'u gwneud i system ddisgyblu'r heddlu. Rhagwelwyd y byddai'r newidiadau hyn yn arwain at arbedion, gan y byddai Prif Swyddogion yr Heddlu, a oedd yn cadeirio gwrandawiadau ar hyn o bryd, yn cael eu disodli gyda chadeiryddion â chymwysterau cyfreithiol, ar gyfradd o £469 y dydd, heb unrhyw gostau ychwanegol am amser teithio, darllen, ac ati.
- Gostyngiad mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
 - Bu gostyngiad cyson a sylweddol yn nifer y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol dros y pedair blynedd diwethaf, gan ostwng o 2.51%; roedd mannau poblogaidd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i gael eu monitro ac roedd arolygon bodlonrwydd dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i gael eu defnyddio er mwyn deall materion allweddol dioddefwyr. Ar gais y Cynghorydd David Griffiths, byddai copïau o'r arolygon yn cael eu darparu yng nghyfarfod nesaf y Panel Heddlu a Throsedd er gwybodaeth.
- Galwadau nad ydynt yn argyfwng yn cael eu dosbarthu fel 'galwadau wedi'u gadael'
 - Cadarnhaodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd bod cyfradd gadael galwadau nad ydynt yn rhai brys yn destun craffu rheolaidd ac ar hyn o bryd yn 5.4%, sef cynnydd o 2% flwyddyn ar ôl blwyddyn. Adroddodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd bod 93% o alwadau 101 wedi cael eu hateb mewn llai na 40 eiliad a 98% o alwadau 101 wedi cael eu hateb mewn llai na 3 munud. Roedd gweithredu mesurau hyfforddi yn yr ystafell reoli wedi gweld gwelliant yn y gyfradd gadael, gan ddechrau i lefelau mwy tebyg i ddechrau 2014. Ar gais y Cynghorydd David

- Griffiths, byddai copïau o'r ystadegau yn cael eu dosbarthu i aelodau o'r Panel Heddlu a Throsedd er gwybodaeth.
- Cytunwyd bod ymweliad yn cael ei drefnu â Chanolfan Alwadau Heddlu Gogledd Cymru yn Llanelwy i aelodau o'r Panel Heddlu a Throsedd.
 - Yn ogystal, ailadroddodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ei wahoddiad i'r Panel Heddlu a Throsedd ymweld â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i ddeall gwaith rhedeg o ddydd i ddydd a rôl y Swyddfa. Byddai'r Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) a'r Awdurdod Cynnal yn trefnu'r ymweliadau hyn yn unol â hynny.
 - Cadlanciau Gwirfoddol / Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
 - Cododd y Cyngorydd David Griffiths bryderon ynghylch plismona yn y gymdogaeth ac argaeledd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn enwedig yn ei ardal ef (Wrecsam). Mewn ymateb, dywedodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd bod plismona cymdogaeth yn cael ei drefnu mewn timau, ac y dylai Swyddogion fod ar gael bob amser. Gan fod pryderon tebyg wedi'u codi yn flaenorol gan y Cyngorydd Bob Dutton, byddai Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn trafod hyn ymhellach gydag Heddlu Gogledd Cymru.
 - Gofynnwyd am eglurder ar nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn y gymuned leol hefyd, gan fod pryderon nad oeddent yn cael eu disodli neu fod rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn newid, er mwyn cwmpasu ardal ehangach.

PENDERFYNWYD-

- (a) Nodi'r wybodaeth.**
- (b) Bod copïau o arolygon bodlonrwydd dioddefwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael eu darparu yng nghyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**
- (c) Bod copïau o'r ystadegau o ran cyfradd gadael galwadau nad oeddent yn argyfwng yn cael eu dosbarthu i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**
- (d) Bod ymweliad yn cael ei drefnu â'r Ganolfan Alwadau yn Llanelwy i aelodau o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**
- (e) Bod ymweliad yn cael ei drefnu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer aelodau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**
- (f) Bod y pryderon ynghylch plismona yn y gymdogaeth ac argaeledd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn enwedig yn ardal Wrecsam, yn cael eu hadrodd yn ôl i Heddlu Gogledd Cymru.**

(g) Bod eglurhad ar nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn y gymuned leol yn cael ei roi i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

188. **CYFLWYNIAD AR SUT Y MAE COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD YN GWELLA HYDER YN YR HEDDLU AR DRAWS GOGLEDD CYMRU**

Cafodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fanylion ynghylch sut roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gwella hyder yn yr heddlu ar draws Gogledd Cymru, a oedd hefyd yn cynnwys manylion ynghylch Canolfan Cymorth i Ddiodefwyr a agorwyd yn ddiweddar yn Llanelwy.

Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd wrth yr Aelodau fod y Ganolfan Cymorth i Ddiodefwyr wedi agor 1 Gorffennaf 2015, o ganlyniad i ddarn manwl o waith yn canolbwyntio ar ddiodefwyr troseddau.

Prif nodau ac amcanion y Ganolfan Cymorth i Ddiodefwyr oedd:

- Darparu un pwynt cyswllt ar gyfer diodefwyr i gael mynediad i wasanaethau diodefwyr
- Canolbwyntio cefnogaeth ar ddiodefwyr sydd â mwy o anghenion
- Hwyluso cydleoiliad o ddarpariaeth gwasanaeth

Dangoswyd darn byr o ffilm, a oedd â'r nod o godi proffil y Ganolfan a byddai'n cael ei ddangos i grwpiau cymunedol a byddai ar gael ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Awgrymwyd y gallai'r ffilm fod ar gael i ysgolion hefyd.

Adroddodd Rheolwr y Prosiect (Nicole Parry-Green), ers y lansiad, bod 3000 o ddiodefwyr wedi cael eu hatgyfeirio at y Ganolfan i gael cymorth. Roedd y prif atgyfeiriadau gan Heddlu Gogledd Cymru, a gyfeiriodd unrhyw ddiodefwyr troseddau yn awtomatig; fodd bynnag, roedd hunangyfeirio hefyd ar gael ar gyfer y rhai nad oedd yn dymuno rhoi gwybod am drosedd.

Roedd y Ganolfan yn cyflogi Gweithiwr Troseddau Casineb, a oedd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a hefyd Gweithiwr Achos Iechyd Meddwl. Yn ogystal, roedd y Ganolfan hefyd yn y broses o gyflwyno gwasanaeth sgwrs fyw, a oedd yn cynnig cyngor dienw, cyfrinachol, ar-lein.

Byddai Bwrdd Llywodraethwyr, gydag aelodaeth yn cynnwys diodefwyr troseddau, yn cael ei sefydlu i oruchwylio gwaith y Ganolfan a monitro perfformiad.

Cafodd y Panel Heddlu a Throsedd gyflwyniad hefyd ar y canlynol:

- Bodlonrwydd Dioddefwyr:
 - Roedd Canlyniadau Arolwg Bodlonrwydd Sydyn wedi dangos bod gwelliannau ar draws pob agwedd ar fodlonrwydd defnyddwyr ym mis Gorffennaf 2015, o'i gymharu â'r cyfnod treigl 12 mis blaenorol (Gorffennaf 2014).
 - Bu cynnydd sylweddol o 5.8% i ganlyniadau bodlonrwydd dioddefwyr ar gyfer gwybodaeth ddilynol a diweddariadau gan swyddogion. Roedd y nifer a oedd yn fodlon â'r weithdrefn ddilynol wedi parhau i gynyddu ers mis Ebrill 2015.
- Gweithio mewn Partneriaeth:
 - Roedd ymweliadau â Pharc Caia yn Wrecsam, Gorllewin y Rhyl ac Ysgubor Goch, Caernarfon wedi dangos pa mor bwysig oedd gweithio mewn partneriaeth.
 - Roedd ymweliadau hefyd wedi'u trefnu ar gyfer Caergybi, Conwy a Sir y Fflint.

Diolchodd Panel yr Heddlu a Throsedd i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd am y cyflwyniad llawn gwybodaeth.

189. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2015/16**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid ddiweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar Gyllideb 2015/16 fel yr oedd ar 30 Mehefin 2015.

Adroddodd y Prif Swyddog Cyllid, oherwydd materion mewn perthynas â Chynllun Pensiwn yr Heddlu, nid oedd wedi gallu rhoi gwybodaeth am alldro'r llynedd yn yr adroddiad, gan fod y ffigurau terfynol ond newydd eu cwblhau.

Yr alldro ar gyfer 2014/15 oedd £141.530 miliwn (cyn trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn) o'i gymharu â chyllideb o £141.820 miliwn, gan arwain at danwariant o £0.290 miliwn, a oedd yn gynnydd ar y tanwariant a ragwelwyd o £0.114 miliwn, a adroddwyd fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2014; yr amrywiad mwyaf o'r adroddiad hwnnw oedd mewn incwm.

Roedd disgwyl i'r Cyd-bwyllgor Archwilio, a sefydlwyd gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, lofnodi'r cyfrifon ar 22 Medi 2015 a byddai barn archwilio ddiamed yn cael ei derbyn, ar yr amod nad oedd unrhyw newidiadau cyn y cyfarfod.

O ran y gyllideb ar gyfer 2015/16, roedd tan-wariant wedi'i ragamcanu o £141,000, a oedd yn unol â'r gyllideb yn fras.

Cafodd Panel yr Heddlu a Throsedd hefyd wybod bod ariannu'r gyllideb blismona yn debygol o newid o 2016/17, o ganlyniad i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a newidiadau i Fformiwla Dyrannu'r Heddlu.

Roedd y fformiwla gyfredol yn gymhleth, roedd y data a ddefnyddiwyd wedi dyddio ac nid oedd fformiwla wedi cael ei gweithredu'n llawn. Yn y blynyddoedd diwethaf, roedd pob Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cael toriadau o union yr un ganran mewn grantiau, felly roedd angen newid y system gyfredol.

Roedd ymgynghoriadau ar yr adolygiad o wariant a'r fformiwla wedi rhedeg ochr yn ochr dros yr haf ac roedd barnau'r gwasanaeth heddlu yn ei gyfanrwydd, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, y persbectif Cymreig a barn Gogledd Cymru wedi cael eu cyflwyno.

Disgwylwyd y byddai canlyniadau'r adolygiad o wariant a'r fformiwla yn hysbys ar ddechrau Rhagfyr 2015, gyda'r Swyddfa Gartref yn debygol o ryddhau'r dyraniadau i heddluoedd unigol yng nghanol Rhagfyr, fel yr arfer.

Trafododd y Panel Heddlu a Throsedd y materion canlynol:

- Incwm ar gyfer plismona gemau pêl-droed
 - Cadarnhawyd bod incwm ond yn dod i law ar gyfer plismona o fewn cyfyngiadau'r stadiwm pêl-droed
- Cyllid ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder
 - Gan fod lefel y toriadau yn anhysbys ar hyn o bryd, nid oedd yn bosibl rhagweld lefelau ariannu ar gyfer gwasanaethau o'r fath.

Holodd aelod o'r Panel a oedd plismona yng Ngogledd Cymru yn gynaliadwy.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid nad oedd Treth y Cyngor wedi'i chapio, a bod cynnydd blaenorol yn y praesept plismona wedi cael ei ddefnyddio er budd plismona Gogledd Cymru ac nid wedi'i ddefnyddio i wneud iawn am golli cyllid; nid oedd lefel y praesept ar gyfer 2016/17 yn hysbys eto, oherwydd yr ansicrwydd o gwmpas lefel y toriadau.

Adroddodd y Comisiynydd hefyd bod Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn llwyddiannus hyd yma i ddod o hyd i arbedion ac wedi cael ei ganmol gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi am gadw gostyngiadau staff i isafswm.

PENDERFYNWYD- **Nodi'r adroddiad.**

190. ARFER DA AR GYFER PANELI HEDDLU A THROSEDD

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) ddogfen gyfarwyddyd Cymdeithas Llywodraeth Leol ar 'Arfer Da ar gyfer Paneli Heddlu a Throsedd' i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Ni fwriadwyd i'r ddogfen fod yn ganllaw diffiniol, ond roedd yn edrych ar nifer o faterion a oedd wedi bod yn sylweddol ar gyfer Paneli'r Heddlu a Throsedd hyd yn hyn, ac wedi rhannu rhai enghreifftiau o arfer da ar sut y cafodd y rhain eu trin.

Er bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru eisoes wedi cynnwys y rhan fwyaf o'r meysydd o arfer da a amlinellir o fewn y canllawiau, neu yn y broses o wneud hynny, roedd angen ystyried rhai o ddulliau Paneli eraill yr Heddlu a Throsedd.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at y meysydd canlynol yn yr adroddiad:

- Rolau a Chyfrifoldebau - bod yn atebol, darparu her a chael sicrwydd:
 - Ers sefydlu Panel yr Heddlu a Throsedd, roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi darparu'r wybodaeth ofynnol i'r Panel ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau. Ymdrechodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i ddarparu atebion i'r holl gwestiynau, lle bo'n briodol.
- Adnoddau Panel yr Heddlu a Throsedd:
 - Derbyniodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru grant gan y Swyddfa Gartref ac roedd yn gweithio o fewn y grant, mewn modd cost-effeithiol.
 - Awgrymodd canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol y dylai'r Panel Heddlu a Throsedd edrych at eu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol fel ffynhonnell o wybodaeth; fodd bynnag, oherwydd y ffordd y cafodd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eu sefydlu yng Ngogledd Cymru, byddai'n anodd i'r 4 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol fod yn bresennol er mwyn darparu dadansoddiad ac asesiad o effaith polisïau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
 - Cafodd Panel yr Heddlu a Throsedd ei annog i wahodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i ddangos sut yr oedd yn dal y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gyfrif am gyflawni ei Gynllun Heddlu a Throsedd.
- Gwrandawiadau Cadarnhau:
 - Oherwydd newid yn y ddeddfwriaeth o amgylch recriwtio prif swyddogion, byddai aelod annibynnol yn rhan o'r broses recriwtio a byddai angen i'r person hwnnw gyflwyno adroddiad i'r Panel Heddlu a Throsedd, fel ei fod yn fodlon bod y broses recriwtio wedi'i chynnal yn agored ac yn deg.
- Craffu'r Panel Heddlu a Throsedd:
 - Nid oedd unrhyw un ffordd o graffu ar bethau ac er nad oedd Panel yr Heddlu a Throsedd yn adrodd ar gynnydd i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, gwahoddwyd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i ddod i gyfarfodydd o'r fath gan Awdurdodau Lleol i roi'r diweddaraf / ymgynghori ar ei Gynllun Heddlu a Throsedd.
- Craffu Tryloyw – a ddylai pob gohebiaeth fod ar gael i'r cyhoedd?
 - Roedd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn cyhoeddi ei holl raglenni, adroddiadau a chofnodion ar ei wefan. Yn ogystal, roedd adroddiadau'r Panel mewn perthynas â'r Praesept, Gwrandawiadau Cadarnhad, y Cynllun Heddlu a Throsedd ac Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.
- Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol
 - Roedd gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Raglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i sefydlu, ac roedd Swyddogion o'r Awdurdod Cynnal a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cwrdd yn rheolaidd i drafod.

- Ymdrin â chwynion:
 - Roedd gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru broses gwyno, a oedd wedi gweithio'n effeithiol hyd yn hyn: Er nad oedd gan y Panel gylch gwaith i ddelio â chwynion yn erbyn yr Heddlu, roedd Panel yr Heddlu a Throsedd yn derbyn cwynion yn erbyn yr Heddlu, a oedd yn cael eu hatgyfeirio at yr Adran Safonau Proffesiynol yn ôl y gofyn.
- Ymateb i newid o ran Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar ganol tymor:
 - Roedd yr Awdurdod Cynnal eisoes yn y broses o ddatblygu canllawiau mewn perthynas â'r mater hwn.

Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cael gwahoddiad i roi sylwadau ar y canllawiau a'r argymhellion, ac roedd ei sylwadau'n amgaeedig fel Atodiad 2 yr adroddiad.

Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cefnogi llawer o ganfyddiadau'r adroddiad ac yn rhoi llawer o werth ar y berthynas waith ardderchog a oedd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phanel yr Heddlu a Throsedd yng Ngogledd Cymru, gan gydnabod y modd yr oedd y Panel Heddlu a Throsedd wedi cyflawni ei waith craffu ei hun.

Fodd bynnag, roedd pwyntiau penodol, yr oedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd am dynnu sylw'r Panel atynt, a oedd yn cynnwys:

- Roedd canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol yn cynnwys ffaith anghywir - dywedodd y 'Rhagair' bod Paneli Heddlu a Throsedd wedi cymryd lle Awdurdodau'r Heddlu, pan mai Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd mewn gwirionedd oedd wedi cymryd lle Awdurdodau'r Heddlu.
- Roedd mater gyda'r derminoleg drwy adroddiad y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn ymwneud â rôl y Paneli Heddlu a Throsedd. Roedd y rhagair a rhannau eraill o'r adroddiad yn anghywir wrth sôn mai rôl y Paneli Heddlu a Throsedd oedd dwyn Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i gyfrif. Mae Adran 28 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, sy'n sefydlu Paneli'r Heddlu a Throsedd, yn dangos bod y Panel yn bodoli i 'adolygu a chraffu' ar benderfyniadau a wneir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Cadarnhaodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, a fyddai'n ymateb i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, mewn perthynas â'r anghywirdebau yn y ddogfen gyfarwyddyd.

PENDERFYNWYD-

- (a) Bod y ddogfen ganllaw 'Arfer Da ar gyfer Paneli Heddlu a Throsedd' yn cael ei nodi.**
- (b) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cael ei wahodd i ddangos i Banel yr Heddlu a Throsedd sut y mae'n dal y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gyfrif am gyflawni Cynllun yr Heddlu a Throsedd Gyfer Gogledd Cymru.**

- (c) **Bod y newid yn y ddeddfwriaeth o amgylch recriwtio Prif Swyddogion yn cael ei nodi, ac y bydd aelod annibynnol yn rhan o'r broses recriwtio a bydd angen i'r person hwnnw gyflwyno adroddiad i'r Panel Heddlu a Throsedd, fel bod y Panel yn fodlon bod y broses recriwtio wedi'i chynnal yn agored ac yn deg.**
- (d) **Cydnabod y protocol ar gyfer Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel adnodd ar gyfer craffu effeithiol.**
- (e) **Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn parhau i gyhoeddi ei holl raglenni, cofnodion ac adroddiadau'r Panel ar ei wefan.**
- (f) **Lle bo'n briodol, bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cael eu cyflwyno â phapurau o Gydbwyllgor y Gogledd Orllewin yn rheolaidd.**

191. **ADRODDIAD Y PWYLLGOR AR SAFONAU BYWYD CYHOEDDUS - ARWEINYDDIAETH, MOESeg AC ATEBOLRWYDD MEWN PLISMONA**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) yr adroddiad gan y Pwyllgor, i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar Arweinyddiaeth, Moeseg ac Atebolrwydd mewn Plismona.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn dod i'r casgliad bod angen ffocws cryf a parhaus ar; eglurder cyfrifoldeb ac atebolrwydd; datblygu diwylliant cynaliadwy o ymgorffori safonau moesegol uchel; ac arweinyddiaeth foesegol effeithiol gadarn, i ddarparu sicrwydd bod safonau moesegol uchel o ymddygiad â'r gallu i gynnal gwerthoedd plismona craidd, ac ategu atynt.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at yr argymhellion allweddol ar gyfer y Swyddfa Gartref, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, Paneli'r Heddlu a Throsedd a'r Cymdeithasau.

Cafodd Panel yr Heddlu a Throsedd eu cyflwyno hefyd â llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Arglwydd Bew), a dynnodd sylw at yr argymhellion ar gyfer Paneli Heddlu a Throsedd, a oedd yn cynnwys:

- Argymhelliad 9 - Dylai Paneli'r Heddlu a Throsedd adolygu Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn y sesiwn gyhoeddus y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ei mynychu fel rhan o'u rhaglenni craffu blynyddol a gwneud unrhyw argymhellion fel y bo'n briodol.

- Roedd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru eisoes yn adolygu Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn flynyddol mewn sesiwn gyhoeddus ac roedd hyn yn cael ei roi ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol mewn ymgynghoriad â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- Argymhelliad 10 – Fel arfer da, dylai Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd gyhoeddi rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer penderfyniadau, yn nodi pwnc y penderfyniad, pam ei fod yn allweddol, y cyfarfod lle disgwylir gwneud y penderfyniad, gyda phwy yr ymgynghorir â nhw cyn y gwneir y penderfyniad a pha adroddiadau/papurau fydd ar gael i'w harchwilio.
- Roedd y mater hwn ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu gan Brif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- Argymhelliad 10 - Dylai Paneli'r Heddlu a Throsedd gynhyrchu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn nodi, fel y bo'n briodol, yr wybodaeth sy'n ofynnol gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd er mwyn iddynt gyflawni'r gwaith hwnnw.
- Roedd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru eisoes wedi sefydlu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, a oedd yn cael ei datblygu mewn ymgynghoriad â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'i chyflwyno ym mhob un o gyfarfodydd Panel yr Heddlu a Throsedd.
- Argymhelliad 19 - Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Materion Cartref bod:

Paneli'r Heddlu a Throsedd yn archwilio ac yn adrodd ynglŷn â'r amgylchiadau pryd bynnag y daw gwasanaeth prif gwnstabl i ben ni waeth a ddefnyddir proses graffu Atodlen 8 yn ffurfiol ai peidio.

Roedd Panel yr Heddlu a Throsedd a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cydnabod fod nifer o'r argymhellion eisoes ar waith, neu wedi cael eu nodi ac yn cael eu datblygu.

Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Strategol ymateb yn unol â hynny i Gadeirydd y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

PENDERFYNWYD-

- (a) Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn derbyn yr adroddiad gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ac yn cefnogi'r argymhellion ar gyfer Paneli'r Heddlu a Throsedd.**
- (b) Bod y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) yn ymateb yn unol â hynny i Gadeirydd y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.**

192. **Y WEITHDREFN AR GYFER CWESTIYNAU I'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) y weithdrefn arfaethedig i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Ar gais Panel yr Heddlu a Throsedd, roedd yr Awdurdod Cynnal wedi dyfeisio trefn fel y gallai'r Panel dderbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd neu Aelodau Panel, y gellid eu rhoi i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ei gyfarfodydd cyhoeddus.

Roedd y weithdrefn yn caniatáu i gwestiynau gael eu cyflwyno i'r Panel Heddlu a Throsedd 10 diwrnod neu fwy cyn cyfarfod y Panel.

Holodd un Aelod Panel ynghylch y weithdrefn ar gyfer cwestiynau brys. Ni fyddai cwestiynau a dderbyniwyd llai na 10 diwrnod gwaith cyn Cyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod, oni bai, ym marn yr Awdurdod Cynnal, ei fod yn ymwneud ag eitem ar raglen y Panel, neu ei fod yn fater mor ddybryd fel y dylid ei gymryd yn y cyfarfod.

Roedd yn bwysig bod y Comisiynydd yn ymwybodol o'r cwestiynau cyn y cyfarfod, fel y gallai baratoi ateb yn unol â hynny. Byddai angen i Aelodau'r Panel roi gwybod i'r Awdurdod Cynnal a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd am unrhyw gwestiynau brys, fel y gellid ystyried dilysrwydd y cwestiwn ac a ddylid ei roi i'r Comisiynydd.

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo mabwysiadu gweithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

193. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cafodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei gyflwyno gyda'i Raglen Gwaith i'r Dyfodol.

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

194. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Roedd cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun, 9 Tachwedd, 2015.

Cwestiynodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a oedd angen y cyfarfod ar 9 Tachwedd 2015, gan nad oedd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd eitemau ar gyfer y rhaglen.

Mewn ymateb, rhoddodd Panel yr Heddlu a Throsedd wybod bod gan yr Awdurdod Cynnal eitem mewn perthynas â Chyfnod Aelodau Annibynnol Cyfetholedig yn eu swydd, yr oedd angen penderfynu yn eu cylch cyn Rhagfyr 2015.

PENDERFYNWYD-

Bod y Cadeirydd, yr Awdurdod Cynnal a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn trafod yr opsiynau ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 9 Tachwedd 2015.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.35 pm)

Meeting of the North West Police and Crime Panel Independent/Co-opted Members

7th August 2015 11am to 1pm

Present

Independent Members

Greater Manchester - Maqsood Ahmed

North Wales - Pat Astbury

Cheshire - Bob Fousert, Eric Hodson, Sally Hardwick

Cumbria - Linda Vance, Judith Cooke

Officers

Rachael Storey (GMPCC Business Support (notes)), Smyth Harper (GMPCC Head of Communication), Jim Battle (GM Deputy PCC (part))

Apologies

Greater Manchester - Diane Curry

<u>Discussions/Issues/Good Practice</u>	<u>Actions</u>
<p>Role of the regional meeting To provide a forum for sharing good practice and concerns of the PCP work across the region from the independent members view.</p>	<p>Notes to be taken and presented as issues/discussions/good practice and action points. (GMPCC Business Support) Notes to be circulated to all the members present for authorisation prior to being more widely circulated. (Maqsood Ahmed)</p>
<p>Membership of the North West Police and Crime Panel Independent/Co-opted Members meeting Membership to include Cheshire, Cumbria, Greater Manchester, Lancashire, Merseyside, North Wales.</p>	<p>Invitations to be sent to all independent members from the regional Police and Crime Panels. (Maqsood Ahmed)</p>
<p>Police and Crime Panel Areas Large geographical areas make it difficult to travel around.</p>	
<p>Police and Crime Panel Meetings Some papers submitted by the Office of the Police and Crime Commissioner are</p>	

<p>difficult to understand. Beurocracy and governance processes take a long time and political processes have been difficult to get used to for some independent members. Sub committees have been used in a task and finish group way to discuss issues in more detail – these have been very beneficial. Questions to the Commissioner as a standard agenda item has been beneficial.</p>	
<p>Membership of panels Independent members provide a skills base to ask pertinent questions. Independent members tend to be more active than elected members. Elected members from the Police Authority regimes tend to get caught up in the detail of the issues and follow a similar role that they had as police authority members even though the new role is very different.</p>	<p>Explore the role and remit of independent members in all the PCP areas.</p>
<p>Agendas Agendas are set by the governance officers of the authorities (e.g. County council). Independent members struggle to get items listed in the agendas in some areas yet members of the Police and Crime Panel in other areas are able to comment on the agenda prior to the meeting.</p>	
<p>Work of other PCPs Visits have been undertaken to observe PCP meetings in other areas to see how they operate. (Nottingham – the Chief Constable attends the panel meetings with the PCC) (Merseyside – PCC consults the PCP on some issues)</p>	
<p>Payment of expenses Expenses are paid differently in different areas. (Some pay travel expenses some pay allowances) Elected members receive an allowance through their local council.</p>	<p>Find more information about how expenses and payments to Independent members are made across the region. (Dawn in North Wales could advise) (Group – next meeting)</p>
<p>Engagement with communities Some areas web-casting meetings</p>	<p>Explore how panels can engage more with the community. (Group – next meeting)</p>

<p>Recruitment of independent members Cheshire is developing a recruitment process fro independent members</p>	
<p>Recruitment of Chief Constables Some PCCs have involve PCP members in the recruitment process.</p>	
<p>Police and Crime Panel members skills and training Independent members skills are not being utilised fully in some areas.</p>	<p>Consider and develop how independent members' skills can be utilised. Independent members to be contacted by email to identify the issues they need more information and advice on. (Maqsood Ahmed)</p>
<p>Accountability Issues in some areas with the Police and Crime Panel and PCC not understanding the line of accountability. Lines of accountability sometimes getting blurred.</p>	
<p>Office of the Police and Crime Commissioner OPCC Staffing levels have increased in some areas are reduced in some. Attendance at PCC forum meetings – some independent members attend the PCC forum meetings as members of the public to gain more information on the issues that would be discussed by the panel. Some OPCCs have set up panels of independent members (eg, Scrutiny and Ethics) which may be a duplication of the Police and Crime Panels work.</p>	
<p>Reports/Action plans In one area independent members have produced a reflection report of the last 12 months work.</p>	<p>Consideration to be given to action plans and reports – Should independent members be singled out from the other members regarding reports and action plans?</p>
<p>Research There is a need for members to have knowledge of the issues they are considering at panel when decisions are being made.</p>	<p>Consider how members can conduct research and feed the information back to the panel.</p>
<p>Role of Independent Members The parliamentary standards committee has done some work on the role of independent members. Information may be available in December 2015.</p>	

<p>Ways to move forward</p>	<p>Reflect the information from the meeting and provide to the Home Office. Maqsood Ahmed</p> <p>Invite someone from the Home Office to the next meeting – Jim Battle to advise who to contact.</p> <p>Produce a report of the work independent members have done and the good practice developed. (maximum 2 sides of A4) All PCP areas</p>
<p>Sharing information</p>	<p>Set up an email exchange group. Maqsood Ahmed</p>
<p>Future meetings The meeting was agreed as a useful forum.</p>	<p>To meet again in Manchester in at the end of October 2015. GMPC to book the room and send out the invitation.</p>

ADRODDIAD I'R:	Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
DYDDIAD:	9 Tachwedd 2015
SWYDDOG CYSWLLT:	Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaid a'r Amgylchedd) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
TESTUN:	Swyddog Arweiniol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Rhoi gwybod Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) am newidiadau staff ar lefel Swyddog Arweiniol ar gyfer y PCP.
- 1.2 Gofyn am gymeradwyaeth i ddiwygio Gweithdrefn Gwyno'r PCP, yn dilyn ymadawriad y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) o'r Awdurdod Lletyol.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Bydd Mr. Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) yn gadael Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ddiwedd mis Ionawr 2016.
- 2.2 Yn dilyn ymadawriad Mr. Finch, byddai'r Awdurdod Lletyol yn penodi ymgynghorydd cyfreithiol a chyfreithiwr y PCP, Mr. Richard Jarvis, fel Swyddog Arweiniol, gan ddod i rym ar 1 Chwefror 2016.
- 2.3 O ganlyniad i'r newid hwn, byddai angen diwygio Gweithdrefn Cwynion a Chylch Gorchwyl y PCP. Mae'r PCP wedi dirprwyo ei swyddogaethau i'r Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi), wrth benderfynu ar y math o gwynion a dderbyniwyd a'r strategaeth ar gyfer rheoli cwynion ar gyfer datrysiad lleol; fodd bynnag, mae angen cymeradwyaeth rŵan i ddiwygio'r ddirprwyaeth i Mr. Richard Jarvis, fel Swyddog Arweiniol o 1 Chwefror 2016.

3. ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION/DEWISIADAU

- 3.1 Nodi'r newidiadau ar lefel Swyddog Arweiniol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.
- 3.2 Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn dirprwyo ei swyddogaethau mewn perthynas â thrin a phenderfynu ar gwynion penodol a wnaed yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd i Mr. Richard Jarvis, fel Swyddog Arweiniol o 1 Chwefror 2016 a bod y PCP yn newid ei Weithdrefn Gwynion a'i Gylch Gorchwyl yn briodol.

5. YMGYNGHORI

- 5.1 Ymgynghorwyd gyda staff perthnasol yn yr Awdurdod Lletyol.
- 5.2 Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cael gwybod am y newidiadau.

6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

- 6.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid i'r Awdurdod Lletyol ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd, sy'n cynnwys cefnogaeth a gweinyddiaeth y PCP.

7. RISG

- 7.1 Mae'n hanfodol bod Swyddog Arweiniol priodol yn cael ei benodi i ddarparu'r cymorth a'r arweiniad angenrheidiol i'r PCP.

8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

- 8.1 Hysbysu'r PCP o faterion staffio, sy'n effeithio ar benodi Swyddog Arweiniol.

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDDU GOGLEDD CYMRU
RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Swyddog Cyswllt:	Dawn Hughes
	Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Bodlondeb Conwy LL28 5NF
E-bost:	dawn.hughes@conwy.gov.uk
Rhif Ffôn:	01492 576061

Dyddiad	Testun	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
09 Tachwedd 2015	Ystyried cyfnod Aelodau Annibynnol Cyfetholedig yn y swydd	Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd
14 Rhagfyr 2015	Cofnodion Cwynion Cael crynodeb o nifer y cwynion a gafwyd a'r weithred	Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd
14 Rhagfyr 2015 14 Mawrth 2016	Diweddariad ar Gyllideb 2015/16	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd)
14 Rhagfyr 2015	Cyflwyniad gan Mr Andy Jones ar yr Uned Rheoli Troseddwyr Integredig	Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
25 Ionawr 2016	Praesept Arfaethedig 2016/17	Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
25 Ionawr 2016	Cynllun Ariannol Tymor Canolig	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd)
25 Ionawr 2016 14 Mawrth 2016	Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
25 Mawrth 2016	Y diweddaraf am sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn dwyn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gyfrif yng Ngogledd Cymru	Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Dyddiad	Testun	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
25 Mawrth 2015	Amserlen Gyfarfod ar gyfer 2016/17	Awdurdod Cynnal
Eitemau yn y dyfodol		
I'w gadarnhau	Diweddariad ar newidiadau i'r Fformiwla Cyllido Cael diweddariad ar yr adolygiad o fformiwla cyllido yr heddlu.	Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
I'w gadarnhau	Adolygiad blynyddol o aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd Sicrhau y bydd Aelodau Etholedig y Panel, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol Gogledd Cymru.	Awdurdod Cynnal
I'w gadarnhau	Adolygu Cylch Gorchwyl Panel yr Heddlu a Throsedd Adolygu'r Cylch Gorchwyl er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben.	Awdurdod Cynnal

ADRODDIAD I'R:	Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
DYDDIAD:	9 Tachwedd 2015
SWYDDOG CYSWLLT:	Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd a'r Amgylchedd) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
TESTUN:	Cyfnod Swydd - Aelodau Annibynnol Cyfetholedig

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Cadarnhau cyfnod swydd y ddau Aelod Annibynnol Cyfetholedig ar Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP).

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Mae'r Cylch Gorchwyl presennol ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi y bydd cyfnod swydd ar gyfer yr Aelodau Cyfetholedig am gyfnod o 3 blynedd, gan ddechrau 19 Rhagfyr 2012 yn y lle cyntaf.
- 2.2 Fodd bynnag, mae'r Trefniadau Panel, sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Swyddfa Gartref yn nodi y bydd y cyfnod swydd tan 31 Hydref yn yr un flwyddyn â'r etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd cyffredin nesaf.

3. ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION/DEWISIADAU

- 3.1 Bod Cylch Gorchwyl Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cael ei ddiwygio fel bod y cyfnod swydd ar gyfer Aelodau Annibynnol Cyfetholedig tan 31 Hydref o'r un flwyddyn â'r etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd cyffredin nesaf.

4. GWYBODAETH GEFNDIR

- 4.1 Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Atodlen 6, Rhan 4) yn gofyn am PCP ar gyfer ardal heddlu i gynnwys y nifer priodol o aelodau a gyfetholwyd gan y Panel. Felly, cytunodd PCP Gogledd Cymru i benodi dau aelod cyfetholedig yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2012.

- 4.2 Cynhaliwyd proses recriwtio a dethol, a oedd yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y mae'r PCP yn ei gynrychioli a phenodwyd Mrs. Pat Astbury a Mr Tim Rhodes i'r PCP ar 19 Rhagfyr 2012.
- 4.3 Mae Trefniadau'r Panel yn datgan bod yn rhaid i'r swyddi gael eu hail-hysbysebu ôl 31 Hydref, fodd bynnag, nid yw hyn yn cyfyngu Aelodau Cyfetholedig rhag ailymgeisio neu gael eu hail-benodi i'r swydd.
- 4.4 Mae gan PCP Gwent a De Cymru gyfnodau swydd tebyg ar gyfer eu Aelodau Cyfetholedig, tra bod gan PCP Dyfed Powys ddyddiad pendant sef 31 Hydref 2016.

5. YMGYNGHORI

- 5.1 Ymgynghorwyd ag Aelodau'r PCP yn anffurfiol.

6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

- 6.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid i'r Awdurdod Lletyol ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd, sy'n cwmpasu'r broses recriwtio a phenodi ar gyfer Aelodau Annibynnol Cyfetholedig.

7. RISG

- 7.1 Ar hyn o bryd mae Trefniadau'r Panel a'i Gylch Gorchwyl yn achosi amwysedd mewn perthynas â'r cyfnod swydd ar gyfer Aelodau Annibynnol Cyfetholedig.

8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

- 8.1 Er mwyn darparu eglurder o ran cyfnod swydd ar gyfer Aelodau Annibynnol Cyfetholedig ar PCP Gogledd Cymru.

NORTH WALES POLICE AND CRIME PANEL

PANEL ARRANGEMENTS

INTRODUCTION

1. The Police Reform and Social Responsibility Act 2011 (Schedule 6, Part 4, Paragraph 24) requires the creation of 'Panel Arrangements' for the establishment and maintenance of a Police and Crime Panel.

SUMMARY

2. Panel Arrangements must make provision for the following:

Membership of the North Wales Police and Crime Panel

- The term of office of Elected Members and Co-opted Members of the Panel.
- Resignation and removal of Elected Members and Co-opted Members of the Panel.
- Conditions for re-appointment of Elected Members and Co-opted Members of the Panel.

Promotion and Support for the North Wales Police and Crime Panel

- The role of the Police and Crime Panel to be promoted.
- Administrative and other support to be given to the Police and Crime Panel and its Members.
- In relation to the functions of the Police and Crime Panel, support and guidance to be given to Members of the relevant local authorities, Members of the executives of relevant local authorities and officers of the relevant local authorities.

3. Panel Arrangements may make provision for:

Allowances

- The payment of allowances to Members of the North Wales Police and Crime Panel.

Compliance with Panel Arrangements

4. The following must comply with the Panel Arrangements:

- Each relevant local authority; namely, Conwy County Borough Council, Isle of Anglesey County Council, Gwynedd Council, Denbighshire County Council, Flintshire County Council and Wrexham County Borough Council.
- Each Member of the North Wales Police and Crime Panel.

PANEL ARRANGEMENTS

5. The following Panel Arrangements will apply to the North Wales Police and Crime Panel:

Membership of the North Wales Police and Crime Panel

- 5.1 The Elected Members of the Police and Crime Panel shall consist of the following number:
 - 5.1.1 Isle of Anglesey County Council – 1 Member
 - 5.1.2 Conwy County Borough Council (“Host Authority”) – 2 Members
 - 5.1.3 Denbighshire County Council – 1 Member
 - 5.1.4 Flintshire County Council – 2 Members
 - 5.1.5 Gwynedd Council – 2 Members
 - 5.1.6 Wrexham County Borough Council – 2 Members
- 5.2 The North Wales Police Panel shall co-opt two Co-opted Members onto the Panel for a term of three years.

Term of Office

- 5.3 The term of office of the Elected Members shall be a matter for each nominating local authority, subject to a minimum planned term of one municipal year. The term of office for Co-opted Members shall be until 31st October of the same year as the next ordinary Police and Crime Commissioner election.

Resignation and Removal of Elected Members and Co-opted Members of the Panel

- 5.4 Any Member may resign at any time, by giving notice in writing to the Chair of the Panel and their nominating authority (if appropriate).
- 5.5 Any Member may be removed by the Secretary of State at any time, and the Secretary of State will remove any Member at the request of their nominating local authority at any time.
- 5.6 A Co-opted Member can be removed from office through a majority vote of the Panel present, provided the Member has been given no less than four weeks notice of a proposal to remove, and provided the Member has an opportunity to make representations about the proposal. Examples of reasons for removal of office include (but are not limited to) being absent from 3 consecutive meetings without consent from the Panel or being convicted of a criminal offence.

Conditions for re-appointment of Elected Members and Co-opted Members of the Panel

- 5.7 Elected Members are eligible for re-appointment on the expiry of their term. There are no restrictions on the number of terms of office that can be served.
- 5.8 Co-opted Members term of office shall be until 31st October of the same year as the next ordinary Police and Crime Commissioner election. The positions must be re-advertised; however this does not restrict Co-opted Members from reapplying or being re-appointed to the position.
- 5.9 The recruitment and selection process for co-opting Members shall include a reasonable period for advertising the positions. To reflect the geographical area that the Panel represents, as far as practical, adverts shall be placed through media and other sources that have equality of access for residents within the North Wales Police area.
- 5.10 A closing date for applications will be a minimum of 2 weeks after the date of the first advert.
- 5.11 Application packs will be prepared and made available to those who request an application form. The applications will be considered by the Chair, Vice Chair and one other Member against an agreed person specification criteria and shortlisted accordingly.
- 5.12 If no applications are received or if all applications received fall below the minimum eligibility criteria, the vacancies shall be re-advertised in accordance with this section. The Chair, Vice Chair and one other Member of the Panel will interview those shortlisted.
- 5.13 Following the interviews, the interview panel will make recommendations to the Panel. In making those recommendations the interview panel shall consider the balance of the Panel in accordance with the Equalities Act 2010 and the skills required to enhance the Panel.

Promotion and Support for the North Wales Police and Crime Panel

- 5.14 The Panel shall be promoted through a dedicated website (with appropriate links to other relevant websites) including information about the role and work of the Panel, Panel Membership, all non-confidential Panel and sub-committee meeting papers, press releases and other publications.

- 5.15 Administrative support, guidance, general advice, legal advice, HR and training shall be made available by the Host Authority to Panel Members in support of the functions of the Panel. The Host Authority shall ensure that it disseminates information and best practice made available by the Home Office.
- 5.16 The Host Authority shall ensure the North Wales Police and Crime Panel's agendas, reports and recommendations will be communicated to nominating authorities.
- 5.17 The Host Authority will attend any meeting with Executive Members, Scrutiny Members or Officers of relevant authorities to explain and promote the work of North Wales Police and Crime Panel.

Allowances

- 5.18 The payment of allowances to panel members can be claimed as follows:

Payments to be made via a daily fee of £198 (£99 for a half day), capped at a maximum of the equivalent of 5 full days per year for approved duties defined as follows:

- (a) attendance at a meeting of the Panel or of any sub committee of the Panel.
 - (b) attendance at any training or developmental event approved by the Panel.
- 5.19 Travel allowances can be claimed for 'approved duties' defined as:
- (a) attendance at a meeting of the Panel or of any sub committee of the Panel.
 - (b) a duty undertaken for the purpose of or in connection with the discharge of the Panel's functions.
 - (c) attendance at any training or developmental event approved by the Panel.
- 5.20 The rates of travel claims shall be at the HMRC rates of mileage
- 5.21 Members can claim for other forms of travel (bus, train & taxi) and appropriate receipts showing the actual expense incurred must accompany claims. Members should always be mindful of choosing the most cost effective method of travel.
- 5.22 Subsistence for overnight accommodation and meals are available to Panel Members whilst undertaking an approved duty. The rates of subsistence shall be the same as determined by the Host Authority. Claims must be supported by receipts.

July 2013